



Ffurflen astudiaeth

- Enw'r astudiaeth** Ymgysylltu ar ran Partneriaeth Amgylcheddol Sir Gâr yn rhan o'i datblygu.
- Partneriaid** Panel y Dinasyddion – cylch sy'n cynrychioli trigolion y sir, Bwrdd Golygyddol Panel y Dinasyddion, Cyngor Sir Gâr, Heddlu Dyfed Powys, Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Geiriau allweddol** Trigolion Sir Gâr, y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, y newid hinsoddol, cynaladwy o safbwynt yr amgylchedd, arolwg, panel dinasyddion

1. Cyflwyniad byr

Fy ngwaith yw annog sefydliadau i ymgysylltu â chymunedau ynglŷn â datblygu cynaladwy. Un o'r agweddau pwysicaf yw tynnu sylw at effeithiau'r newid hinsoddol. Mae'n bwysig cyrraedd carfanau na fyddwn i'n ymgysylltu â nhw fel arfer, i hel a chyflwyno eu sylwadau nhw yn rhan o'r gwaith hwn.

2. Manylion y pwnc sydd wedi'i drafod

Yn ôl adborth yn sgîl gwerthuso cynnydd canol tymor swyddog datblygu Partneriaeth yr Amgylchedd, sydd o dan nawdd Cronfa Gymdeithasol Ewrop, roedd angen ymgysylltu ymhellach â chymunedau i bennu blaenoriaethau'r rhaglen waith a datblygu'r bartneriaeth.

3. Camau sydd wedi'u cymryd

Cynhelir arolygon o farn Panel y Dinasyddion deirgwaith y flwyddyn yn ôl themâu perthnasol. Mae tua 700 o drigolion Sir Gâr yn aelodau o'r panel (rhyw 1% o boblogaeth y sir). Rhoddwyd tri chwestiwn aml eu dewisiadau yn yr holiadur yn ôl awgrymiadau Fforwm Partneriaeth yr Amgylchedd o ganlyniad i werthuso cam cyntaf cyfnod y swyddog datblygu. Anfonwyd yr holiadur at aelodau'r panel ac fe dderbyniwyd ymatebion erbyn canol mis Awst 2013. Rhoddwyd yr ymatebion bras gerbron fforwm y bartneriaeth trwy gyfrwng ebost, gweithdy fis Medi 2013, cylchlythyr Her y Gymuned a'r wasg leol. Anfonwyd canlyniadau manylach yr arolwg at aelodau Panel y Dinasyddion fis Medi 2013. Dydyn ni ddim yn disgwyl gweld rhagor o ganlyniadau manwl cyn diwedd mis Tachwedd 2013. Mae bwriad i drafod y rheiny yn ystod cyfarfod Partneriaeth yr Amgylchedd fis Rhagfyr 2013 a'u lledaenu ymhlith aelodau Panel y Dinasyddion adeg cyhoeddi'r cylchlythyr a'r arolwg nesaf yng ngwanwyn 2014.

4. Buddion megis gwella gwasanaethau, gwella trafodaethau am ariannu a threfnu gwasanaethau rhwng mudiadau'r trydydd sector a'r awdurdodau lleol, trefniadau cymorth ar ffurfiau amgen ac ati.

Mae data a blaenoriaethau ynglŷn â'r tri chwestiwn wedi'u cofnodi a byddan nhw'n ein helpu i bennu'r meysydd y dylai Partneriaeth yr Amgylchedd ganolbwyntio arnyn nhw drwy weddill cyfnod ariannu Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

Ffurflen astudiaeth

5. Cynnal a/neu ddatblygu'r buddion

Un o'r negeseuon lawer ddeilliodd o'r gwaith hwn yw pwysigrwydd adborth. Mae Partneriaeth yr Amgylchedd wedi pwysleisio hynny gyda Chylch Llywio Panel y Dinasyddion. Er ein bod ni wedi gweld y canfyddiadau bras a'u rhoi gerbron Fforwm Partneriaeth yr Amgylchedd yn ogystal â'u cyflwyno i Banel y Dinasyddion, mae bwriad i'w dadansoddi'n fanylach maes o law a bydd Cylch Llywio Panel y Dinasyddion yn rhoi'r manylion hynny i Banel y Dinasyddion a'r rhai gymerodd ran yn yr arolwg.

6. Cyd-fynd ag Egwyddorion Gwladol Ymgysylltu Cyhoeddus Cymru

Roedd yn bwysig adlewyrchu'r egwyddorion yn y gwaith hwn ac rwy'n credu bod pob cam wedi'i drefnu yn ôl ystyr yr egwyddorion hynny.

7. Trin a thrafod y prosiect yn ôl Egwyddorion Gwladol Ymgysylltu Cyhoeddus Cymru

Gwerthuso

1 = gwael iawn: 2 = gwael: 3 = gweddol: 4 = da: 5 = rhagorol

Egwyddor	Gwerthuso
Ymgysylltu ar gyfer effaith sylweddol.	3
Annog a galluogi pawb sydd ynghlwm i gymryd rhan yn ôl eu dewis.	4
Ymgysylltu'n drefnus ar yr adeg briodol ac yn y modd priodol.	4
Cydweithio â phartneriaid perthnasol.	4
Rhoi gwybodaeth briodol, hawdd ei deall, heb jargon.	3
Gofalu y bydd yn haws i bobl gymryd rhan.	3
Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol.	4
Rhoi adnoddau/cymorth priodol i'r ymgysylltu, fel y bydd yn effeithiol.	3
Rhoi gwybod i bobl am effaith eu cyfraniad.	4
Dysgu a lledaenu'r gwersi i wella proses yr ymgysylltu.	2

Manylion cysylltu

Enw: Anna M Patterson
Swydd: Swyddog Datblygu Partneriaeth yr Amgylchedd
Sefydliad: Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gâr
Ebst: AMPatterson@carmarthenshire.gov.uk
Ffôn: 01267 224124

2012